# MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

# Y BIL MASNACH (CYTUNDEB CYNHWYSFAWR A BLAENGAR AR GYFER PARTNERIAETH Y MÔR TAWEL)

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y caniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os bydd Bil yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

2. Cyflwynwyd y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) ("y Bil") gerbron Tŷ'r Cyffredin ar 8 Tachwedd 2023. Mae dolen i'r Bil ar gael yn Doc 1.

## Amcanion Polisi

3. Amcan polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw darparu'r mesurau angenrheidiol ar gyfer newidiadau mewn deddfwriaeth ddomestig er mwyn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan gytundeb masnach rydd y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, sy'n ymwneud â'r broses dod i rym. Yn benodol, mae hyn yn ymwneud â rhwystrau technegol i fasnach, prosesau caffael y llywodraeth, ac eiddo deallusol.

## Crynodeb o'r Bil

4. Mae'n ofynnol i'r Bil alluogi gweithredu'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, yn benodol i ddiwygio meysydd o ddeddfwriaeth ddomestig y DU. Rhaid i'r Bil fod mewn grym cyn i'r Cytundeb ddod i rym yn ffurfiol er mwyn sicrhau nad yw'r DU yn torri unrhyw rwymedigaethau a nodir yn y Cytundeb.

5. Mae'r Bil yn cynnwys wyth cymal ac un Atodlen, gan gynnwys:

   - **Cymal 1** – yn diffinio ystyr y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel a phrotocol derbyn y DU at ddibenion y Bil.

   - **Cymal 2** – Trin Cyrff Asesu Cydymffurfiaeth, yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau i weithredu Erthygl 8.6 o'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel drwy ddiwygio is-ddeddfwriaeth. Mae Erthygl 8.6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU sicrhau nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn cyrff asesu cydymffurfiaeth yn nhiriogaethau eraill y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel o blaid cyrff yn nhiriogaeth y DU, neu o blaid cyrff yn un o diriogaethau'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel dros y rhai yn un o diriogaethau eraill y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel.

   - **Cymal 3** – Proses Gaffael y Llywodraeth, yn nodi'r diwygiadau a fydd yn gymwys i reoliadau caffael domestig y llywodraeth i ddeddfu'r rhwymedigaethau ychwanegol sydd wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel.

- **Cymal 4** - Dynodiadau Tarddiad a Dynodiadau Daearyddol – Mae pennod eiddo deallusol y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel yn cwmpasu sawl maes, gan gynnwys patentau, dynodiadau daearyddol, hawlfraint a hawliau cysylltiedig, nodau masnach a dyluniadau. Mae'r bennod yn gosod safonau gwarchod gofynnol yng nghyfundrefnau domestig partïon y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel.

- **Cymal 5** - Hawliau Perfformwyr. Mae'r cymal hwn yn ychwanegu dau fath newydd o warchodaeth mewn cysylltiad â hawliau perfformwyr o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988. Mae hefyd yn diwygio pŵer i gyfyngu ar hawliau perfformwyr mewn rhai achosion. Mae'r pŵer hwnnw yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfyngu ar yr amddiffyniad a roddir i berfformiad ac eithrio mewn achosion pan fo hawliau'r perfformwyr yn bodoli drwy gyfeirio at gysylltiad â'r DU, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gibraltar.

- **Cymal 6** – Rhychwant Tiriogaethol, yn nodi'r awdurdodaethau y bydd darpariaethau'r Bil yn rhan o'r gyfraith ynddynt.

- **Cymal 7** - Cychwyn, yn nodi'r dyddiadau pan ddaw darpariaethau'r Bil i rym.

- **Cymal 8 –** Enw Byr, yn nodi mai enw'r Bil yw Deddf Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) 2023.

6. Ystyrir bod cymalau 1, 6, 7 ac 8 yn ddarpariaethau technegol nad ydynt yn amgodio dewisiadau polisi sylweddol; maent yn ymwneud â sut y mae Bil y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel yn gweithio yn hytrach na'r hyn y mae'r gyfraith yn ei gynnwys ac, am y rheswm hwn, nid ydym fel mater o drefn yn cynnwys y mathau hyn o gymalau mewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

7. Ni wnaed unrhyw welliannau i'r Bil ar yr adeg hon.

**Darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer**

<u>Cymal 2 – Trin Cyrff Asesu Cydymffurfiaeth</u>

8. Mae Cymal 2 yn bŵer i wneud rheoliadau-
   (a) sy'n gweithredu Erthygl 8.6 o'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel,
   (b) drwy ddiwygio is-ddeddfwriaeth.

9. Mae Erthygl 8.6 yn cynnwys rhwymedigaeth ryngwladol sy'n ei gwneud yn ofynnol sicrhau na wahaniaethir yn erbyn cyrff asesu cydymffurfiaeth yn nhiriogaethau'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel, na rhyngddynt. Mae gan y Senedd gymhwysedd i arsylwi ar rwymedigaethau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig, a'u gweithredu[1].

10. Mae'r rhwymedigaeth dim gwahaniaethu yn gweithredu yng nghyd-destun Pennod 8 o'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel sy'n gymwys i ddatblygu, mabwysiadu a chymhwyso rheoliadau technegol, safonau a gweithdrefnau asesu

[1] Paragraff 10 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru.

cydymffurfiaeth *cyrff ar lefel ganolog y llywodraeth*[2]. Yn gyffredinol, ystyr *lefel ganolog y llywodraeth*, ar gyfer y DU, yw Llywodraeth Ei Fawrhydi;[3] ac mewn perthynas â Phennod 8 yn benodol, mae rheoliadau technegol, safonau a gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth *Llywodraeth Ei Fawrhydi* i'w hystyried yn rhai sydd ar *lefel ganolog y llywodraeth*, gan gynnwys pan fydd Llywodraeth Ei Fawrhydi yn gweithredu o ran Cymru[4].

11. Deallwn mai bwriad Erthygl 8.6.1 ac Erthygl 5 o'r Protocol Derbyn, gyda'i gilydd, yw nodi achosion pan fo datblygu, mabwysiadu a chymhwyso rheoliadau technegol, safonau a gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth yn digwydd-
    (A) drwy Ddeddfau yn Senedd y DU[5], gan gynnwys achosion pan fo'r ddarpariaeth berthnasol mewn Deddfau yn cwmpasu meysydd datganoledig[6];
    (B) drwy weithredoedd Llywodraeth y DU ac asiantaethau gweithredol Llywodraeth y DU[7], e.e. yr Asiantaeth Safonau Bwyd, gan gynnwys achosion pan fo Llywodraeth y DU a'i hasiantaethau gweithredol yn gweithredu mewn meysydd datganoledig.

12. O ran (A), gall Deddfau'r DU fod yn gymwys mewn meysydd datganoledig a gallant roi pwerau i Lywodraeth y DU a'i hasiantaethau gweithredol i weithredu mewn meysydd datganoledig.

13. O ran (B), gall Llywodraeth y DU a'i hasiantaethau gweithredol, ymhlith eraill, weithredu mewn meysydd datganoledig o dan bwerau a roddir gan Ddeddfau'r DU ac o dan bwerau a roddir gan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

14. Ein casgliad yw bod y rhwymedigaeth dim gwahaniaethu yn Erthygl 8.6 yn gymwys mewn cysylltiad â darpariaeth ddatganoledig a gynhwysir yn Neddfau'r DU ac mewn cysylltiad â darpariaeth a wneir gan Lywodraeth y DU a'i hasiantaethau gweithredol wrth weithredu mewn meysydd datganoledig.

15. Mae pŵer cymal 2 yn bŵer i weithredu'r rhwymedigaeth dim gwahaniaethu (ac agweddau eraill ar Erthygl 8.6) drwy ddiwygio is-ddeddfwriaeth. Diffinnir *subordinate legislation* yng nghymal 2 fel mai ei ystyr yw *Orders in Council, orders, rules, regulations, schemes, warrants, byelaws and other instruments*
    *(a) made or to be made under any Act* [of the UK Parliament] *or*
    *(b) to be made on or after IP completion day under any retained direct EU legislation other than retained direct EU CAP legislation as so defined or*
    *(c) made or to be made on or after exit day under retained direct EU CAP legislation as defined in section 2 of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020.*

16. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio cymal 2 i weithredu rhwymedigaeth dim gwahaniaethu Erthygl 8.6 drwy ddiwygio darpariaeth ddatganoledig sydd wedi ei chynnwys mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud gan Lywodraeth y DU neu ei hasiantaethau

[2] Erthygl 8.3.1: Testun Pennod TTP TBT - Ion 2015 (dfat.gov.au).
[3] Erthygl 2 o'r Protocol Derbyn: cptpp-accession-protocol-united-kingdom-cptpp.pdf (dfat.gov.au).
[4] Erthygl 5 o'r Protocol Derbyn: cptpp-accession-protocol-united-kingdom-cptpp.pdf (dfat.gov.au); nid oes unrhyw wahaniaethu o ran achosion pan fo Llywodraeth Ei Fawrhydi yn gweithredu o ran Cymru mewn meysydd a gedwir yn ôl o'u cyferbynnu â meysydd datganoledig.
[5] Deallwn mai bwriad Pennod 8 yw nodi Deddfau gan Lywodraeth y DU er mai deddfau gan Senedd y Du ac nid Llywodraeth ei Fawrhydi, a bod yn fanwl gywir, yw Deddfau.
[6] H.y. nid dim ond pan fo Deddfau yn gymwys i Gymru mewn meysydd a gedwir yn ôl.
[7] Nid ydym wedi edrych i mewn i gyrff eraill a allai gael eu cwmpasu gan y cysyniad o gyrff llywodraeth ganolog gan nad ydym o'r farn y gall yr ateb newid y casgliadau ynghylch cymhwysedd.

gweithredol o dan bwerau presennol a phwerau yn y dyfodol a roddir gan unrhyw ddeddfwriaeth o'r math a restrir yn (a) i (c) uchod.

17. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae gan y Senedd gymhwysedd i roi'r un pŵer hwnnw i Weinidogion Cymru, o leiaf o ran y meysydd a nodir yn yr ail golofn yn y tabl yn yr Atodiad.

18. Nid yw Pennod 8 o'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel yn gymwys i broses gaffael y llywodraeth nac i fesurau iechydol a ffytoiechydol a gwmpesir gan Bennod 7 o'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr eithriadau hyn wrth ddod i'r farn a nodir yn y Memorandwm hwn ar gymal 2. Yn gryno, nid ystyriwn eu bod yn newid y casgliad ar gymhwysedd.

<u>Cymal 3 – Proses Gaffael y Llywodraeth</u>

19. Mae dadl barchus bod y cymalau caffael, yn benodol Cymal 3 a Rhannau 1 a 3 o'r Atodlen, o fewn cymhwysedd datganoledig.

20. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig fel bod systemau caffael cyhoeddus y DU yn unol â rhwymedigaethau'r DU o dan y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel. Nodwn, fodd bynnag, fod caffael cyhoeddus fel arfer wedi ei ddatganoli ac o fewn cymhwysedd Llywodraeth Cymru.

21. Bu fy swyddogion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r polisi a wnaeth y Bil yn ofynnol, sef y penodau ar broses gaffael y llywodraeth yn y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel. Mae swyddogion yn cael cyfarfodydd rheolaidd â thimau polisi caffael a negodi'r Adran Busnes a Masnach. Trafodwyd y newidiadau yr oedd eu hangen o ganlyniad i'r penodau ar broses gaffael y llywodraeth â swyddogion cyn cytuno arnynt yn derfynol fel rhan o'r negodiadau.

22. Fodd bynnag, ni fu fy swyddogion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil ei hun. Bu swyddogion yn rhan o'r trafodaethau â swyddogion polisi caffael yr Adran Busnes a Masnach pan ystyriwyd cyflwyno bil gerbron Senedd y DU gyntaf. Drwy gydol y trafodaethau hyn cyfarfu swyddogion Llywodraeth Cymru â swyddogion Llywodraeth y DU o'r Adran Busnes a Masnach a Swyddfa'r Cabinet a gwnaethant yn glir yn y cyfarfodydd hyn fod bil a oedd yn rhoi pwerau cydredol plws yn hanfodol er mwyn sicrhau cydsyniad Llywodraeth Cymru. Cafodd fy swyddogion weld y Bil drafft gyntaf ar 24 Hydref.

23. Mae'r Bil hwn yn rhyngweithio â'r DU yn ymuno â'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel. Rhaid i'r Bil gael ei basio a chael y Cydsyniad Brenhinol cyn i'r Cytundebau ddod i rym yn ffurfiol er mwyn sicrhau nad yw'r DU yn torri ei rhwymedigaethau o dan y Cytundebau pan fyddant yn dod i rym. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn ceisio cael y Cydsyniad Brenhinol yn ystod gwanwyn 2024.

24. Mae'r Bil hefyd yn rhyngweithio â Deddf Caffael 2023 sy'n cyflwyno system ddeddfwriaethol newydd i reoli caffael cyhoeddus. Rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023. Mae Deddf Caffael 2023 ar gael <u>yma</u>. Dylid nodi bod y Bil hefyd yn diwygio'r rheoliadau caffael cyhoeddus presennol, sef Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016, a Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016. Bydd y rheoliadau hyn yn cael eu diddymu pan fydd y Ddeddf Caffael yn cychwyn, a rhagwelir y daw'r Ddeddf Caffael i rym yn hydref 2024.

Cymal 4 - Dynodiadau Tarddiad a Dynodiadau Daearyddol

25. Mae dynodiadau daearyddol a dynodiadau tarddiad (adwaenir yr olaf fel math o ddynodiad daearyddol) yn gwarchod enwau cynhyrchion sydd â chydberthynas arbennig â'u tarddle. Ar hyn o bryd mae 19 o ddynodiadau daearyddol Cymreig gan gynnwys Cig Oen Cymru, Halen Môn a Wisgi Cymreig Brag Sengl. Mae pennod eiddo deallusol y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel yn nodi'r gweithdrefnau y mae rhaid iddynt fod ar waith i alluogi partïon i wrthwynebu cais i warchod dynodiad daearyddol, ac i ganslo dynodiad daearyddol cofrestredig. Mae'r llywodraeth wedi datgan y bydd angen deddfwriaeth i ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol domestig sy'n rheoleiddio cynllun dynodiadau daearyddol Prydain Fawr ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a chynhyrchion bwyd penodol ('bwyd-amaeth').

26. Mae cymal 4 yn diwygio'r fframwaith domestig sy'n rheoli dynodiadau tarddiad a dynodiadau daearyddol, sef:-
    a) Rheoliad a ddargedwir (EU) Rhif 1151/2012 ar gynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a chynhyrchion bwyd (Rheoliad 1151/2012);
    b) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn a ddargedwir (EU) Rhif 664/2014 o ran sefydlu symbolau'r Undeb ar gyfer dynodiadau tarddiad gwarchodedig, dynodiadau daearyddol gwarchodedig a gwarant arbenigedd traddodiadol ac o ran rheolau penodol ar gyrchu, rheolau gweithdrefnol penodol a rheolau trosiannol ychwanegol penodol (CDR 664/2014); ac
    c) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn a ddargedwir (EU) Rhif 668/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a chynhyrchion bwyd (CIR 668/2014).

27. Fel rhan o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, gwnaeth Llywodraeth y DU ddiwygiadau i gywiro diffygion yn y Rheoliadau'r UE a ddargedwir hyn (a chyfraith gysylltiedig arall yr UE a ddargedwir) o ran Cymru. Ni wnaeth Llywodraeth y DU bob amser geisio cydsyniad Llywodraeth Cymru/y Senedd i'r newidiadau hyn, gan honni bod dynodiadau daearyddol yn eiddo deallusol ac wedi eu cadw yn ôl i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yn gyson fod dynodiadau daearyddol yn agweddau ar y sector bwyd-amaeth ac mae wedi gosod datganiadau ysgrifenedig gerbron y Senedd o dan Reol Sefydlog 30C *Hysbysu mewn perthynas ag Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 na chânt eu gosod gerbron y Senedd* gan herio safbwynt Llywodraeth y DU.

28. Mae hwn yn faes cymhleth o'r gyfraith pan fo dynodiadau daearyddol wedi eu cydblethu â'r farchnad amaethyddol gyffredin ac eiddo deallusol ac mae dadleuon cytbwys o ran ble y gallai'r llinell fod mewn cysylltiad â'r hyn a gedwir yn ôl a'r hyn sydd wedi ei ddatganoli. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn briodol beth bynnag am fod cymal 4 yn amlwg yn effeithio ar feysydd datganoledig bwyd-amaeth.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

29. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried mai dim ond cymal 3 (Caffael) sy'n ymgysylltu â Chonfensiwn Sewel drwy ddeddfu ar faterion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Ysgrifennodd y Gweinidog dros Fuddsoddi at Weinidog yr Economi ar 8 Tachwedd yn amlinellu ei ddadansoddiad datganoli ac yn ceisio i'r broses Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gychwyn.

30. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae Cymal 2 (Asesiadau Cydymffurfio) a Chymal 4 (Dynodiadau Tarddiad a Dynodiadau Daearyddol) hefyd yn ymgysylltu â Chonfensiwn Sewel ac yn ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad.

31. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod cymal 5 wedi ei gadw'n ôl ac nad yw'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r asesiad hwn.

32. Gellir gweld barn Llywodraeth y DU yn y tabl ar dudalen 15 o Nodiadau Esboniadol y Bil[8].

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)**

Cymal 2 – trin cyrff asesu cydymffurfiaeth

33. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i gymal 2 ar ei ffurf bresennol fod yn arferadwy mewn meysydd datganoledig. Mae hyn oherwydd bod y pŵer wedi ei roi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig ac felly nid yw'n adlewyrchu'r setliad datganoli yn iawn.

34. Ym marn Llywodraeth Cymru, os gwneir newidiadau priodol i gymal 2, yna, mewn egwyddor, gallai fod yn briodol i'r Bil wneud darpariaeth sy'n rhoi pŵer i weithredu Erthygl 8.6 mewn meysydd datganoledig oherwydd-
    (a) bod cwmpas y pŵer yn gyfyngedig mewn cyfraith - dim ond i weithredu Erthygl 8.6 y gellir ei ddefnyddio a dim ond drwy ddiwygio is-ddeddfwriaeth, a
    (b) bod cwmpas yr hyn y gellir ei wneud â'r pŵer mewn meysydd datganoledig ar hyn o bryd yn gyfyngedig iawn yn wir – nid ydym yn ymwybodol o unrhyw is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig y gellid ei diwygio gan gymal 2.

35. Mae Gweinidog yr Economi yn ysgrifennu at yr Arglwydd Johnston, y Gweinidog dros Fuddsoddi, i gyfleu ein safbwynt ac i egluro na allwn argymell cydsynio i gymal 2 fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd.

36. **Argymhelliad**: Nid yw Llywodraeth Cymru yn argymell rhoi cydsyniad i Gymal 2 fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd.

Cymal 3 – caffael

37. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen gwneud newidiadau i is-ddeddfwriaeth gaffael er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cydymffurfio â rhwymedigaethau Caffael y Llywodraeth yn y Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel.

38. Ar y cyfan mae swyddogion Caffael yn fodlon, ar y newidiadau i is-ddeddfwriaeth am eu bod yn cael eu hystyried yn ddiwygiadau technegol angenrheidiol i'r rheolau caffael cyhoeddus datganoledig fel y maent yn gymwys yng Nghymru, yn ogystal ag ar ddiwygiadau cyfatebol i'r rheolau yng ngweddill y DU.

39. Mae'r newidiadau i'r rheoliadau caffael yn cael eu nodi ar wyneb y Bil ac nid oes unrhyw bwerau newydd yn cael eu creu na'u rhoi. Er nad yw hynny'n ddelfrydol, dyma'r opsiwn gorau i fwrw ymlaen â'r newidiadau technegol, esboniadol hyn i is-ddeddfwriaeth gaffael.

[8] Trade (Comprehensive and Progressive Agreement for Trans-Pacific Partnership) (parliament.uk).

40. Mae swyddogion wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU drwy gydol negodiadau'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel ym maes caffael, ac mae cyfleoedd cyson wedi eu darparu i gyflwyno meysydd o bwys.

41. **Argymhelliad:** Mae Llywodraeth Cymru yn argymell rhoi cydsyniad i Gymal 3.

Cymal 4 – dynodiadau tarddiad a dynodiadau daearyddol

42. Mae Cymal 4 yn gweithredu rhwymedigaethau'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel mewn maes polisi cul ac mewn tirwedd gyfreithiol sy'n gymhleth ac yn ddadleuol. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod cydsyniad yn cael ei roi am nad oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y mater a weithredir, ac oherwydd, o ystyried cwmpas yr hyn a wneir a'r cymhlethdodau o dan sylw, ei bod yn gwneud synnwyr i'r ddarpariaeth hon gael ei gwneud yn y Bil hwn ar yr adeg hon.

43. **Argymhelliad:** Mae Llywodraeth Cymru yn argymell cydsynio i Gymal 4.

**Goblygiadau ariannol**

44. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na'r Senedd yn deillio o'r pwerau yn y Bil.

**Casgliad**

45. Er ein bod yn argymell cydsynio i Gymalau 3 a 4, ni allwn argymell cydsynio i Gymal 2.

**Vaughan Gething AS**
**Gweinidog yr Economi**
**8 Rhagfyr 2023**

ATODIAD – meysydd y mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gallai'r Senedd roi pŵer i weithredu'r rhwymedigaeth dim gwahaniaethu yn Erthygl 8.6 o'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel mewn perthynas â nhw.

| Wedi eu cadw'n ôl | Wedi eu datganoli |
|---|---|
| **Adran - C7 Safonau cynhyrchion, diogelwch cynhyrchion ac atebolrwydd** | |
| 77. Pwnc yr holl ofynion a safonau technegol mewn perthynas â chynhyrchion a gafodd effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn unol â rhwymedigaeth o dan gyfraith yr UE. | 1. Pwnc gofynion a safonau technegol mewn perthynas â chynhyrchion na chawsant effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn unol â rhwymedigaeth o dan gyfraith yr UE.<br><br>2. Pwnc gofynion a safonau technegol mewn perthynas â chynhyrchion a gafodd effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn unol â rhwymedigaeth o dan gyfraith yr UE mewn cysylltiad â<br>• Bwyd, cynhyrchion bwyd a deunyddiau cyswllt bwyd.<br>• Cynnyrch amaethyddol a garddwriaethol, anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, hadau, bwydydd anifeiliaid, gwrtaith a phlaleiddiaid (gan gynnwys unrhyw beth a drinnir fel pe bai'n blaladdwr yn rhinwedd deddfiad). |
| 78. Y corff achredu cenedlaethol ac achredu cyrff sy'n ardystio neu'n asesu cydymffurfiaeth â safonau technegol mewn perthynas â chynhyrchion neu systemau rheoli amgylcheddol. | 1. Y corff achredu cenedlaethol ac achredu cyrff sy'n ardystio neu'n asesu cydymffurfiaeth â safonau technegol mewn perthynas â chynhyrchion neu systemau rheoli amgylcheddol mewn cysylltiad â<br>• Bwyd, cynhyrchion bwyd a deunyddiau cyswllt bwyd.<br>• Cynnyrch amaethyddol a garddwriaethol, anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, hadau, bwydydd anifeiliaid, gwrtaith a phlaleiddiaid (gan gynnwys unrhyw beth a drinnir fel pe bai'n blaladdwr yn rhinwedd deddfiad).<br><br>2. Y corff achredu cenedlaethol ac achredu cyrff sy'n ardystio neu'n asesu cydymffurfiaeth â safonau annhechnegol mewn perthynas â chynhyrchion neu systemau rheoli amgylcheddol.<br><br>3. Y corff achredu cenedlaethol ac achredu cyrff sy'n ardystio neu'n asesu cydymffurfiaeth â gofynion heblaw am ofynion sy'n safonau technegol o fewn ystyr paragraff 78. |
| A. Diogelwch cynhyrchion ac atebolrwydd. | Diogelwch cynhyrchion ac atebolrwydd o ran<br>4. Bwyd, cynhyrchion bwyd a deunyddiau cyswllt bwyd.<br>5. Cynnyrch amaethyddol a garddwriaethol, anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, hadau, bwydydd anifeiliaid, gwrtaith a phlaleiddiaid (gan gynnwys unrhyw beth a drinnir fel pe bai'n blaladdwr yn rhinwedd deddfiad). |
| B. Labelu cynhyrchion. | Labelu cynhyrchion o ran<br>6. Bwyd, cynhyrchion bwyd a deunyddiau cyswllt bwyd.<br>7. Cynnyrch amaethyddol a garddwriaethol, anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, hadau, bwydydd anifeiliaid, gwrtaith a phlaleiddiaid (gan gynnwys unrhyw beth a drinnir fel pe bai'n blaladdwr yn rhinwedd deddfiad). |
| ***Eithriadau*** | |
| • Bwyd, cynhyrchion bwyd a deunyddiau cyswllt bwyd. | |
| • Cynnyrch amaethyddol a garddwriaethol, anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid, hadau, bwydydd anifeiliaid, gwrtaith a phlaleiddiaid (gan gynnwys unrhyw beth | |

| | |
|---|---|
| a drinnir fel pe bai'n blaladdwr yn rhinwedd deddfiad). | |
| ***Dehongli*** | |
| • Mae i "bwyd" yr un ystyr â "food" yn Adran C5. | |
| • Mae i "deunyddiau cyswllt bwyd" a "cynhyrchion bwyd" yr un ystyr â "food contact materials" a "food products" yn Adran C6. | |
| • Ystyr "corff achredu cenedlaethol" ("*national accreditation body*") yw'r corff a benodwyd at ddibenion Erthygl 4(1) o Reoliad (EC) Rhif 765/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 9 Gorffennaf 2008 sy'n nodi'r gofynion ar gyfer achredu a goruchwylio'r farchnad yn ymwneud â marchnata cynhyrchion a diddymu Rheoliad (EEC) Rhif 339/93. | |